



# ANTUR NANTLLE CYF

## 2009/2010

Gweithio er lles yr ardal

# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Pleser o'r mwyaf i mi yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle am y flwyddyn 2009-2010. Dyma'r Adroddiad cyntaf i mi ei gyflwyno yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Bwrdd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn gynnes iawn i fy rhagflaenydd, y Cynghorydd O P Huws, am ei waith dyfal yn llywio'r Antur dros y pum mlynedd diwethaf ac i ddymuno gwellhad buan iddo wedi'r driniaeth yn yr ysbyty.

Gofid oedd gorfod ffarwelio â'n Swyddog Menter, Dafydd Glyn Owen, wedi wyth mlynedd o wasanaeth clodwiw a diolch iddo yntau am ei ymroddiad a'i ffyddlondeb a dymunwn yn dda iddo. Bellach, Beryl Fretwell, Ysgrifennydd yr Antur, sy'n gwneud y gwaith ac ni ellid cael neb gwell gan ei bod wedi bod gyda'r Antur ers amser a gyda'i phrofiad a'i gwybodaeth gallwn gamu ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Diolch i bawb sydd wedi bod wrthi'n ddiflino'n gweithio'n galed ar brosiectau'r Antur yn ystod y flwyddyn. Rhaid cofio mai gwaith gwirfoddol yw hyn i gyd gan gyfarwyddwyr y cwmni sy'n fodlon rhoi eu hamser i ddatblygu cynlluniau'r Antur er hybu lles ac economi'r Dyffryn.

Gyda chyni'r wasgfa economaidd mae'r Antur, fel pawb arall, wedi dioddef dan ei effaith. Mae toriadau llym y Llywodraeth yn golygu y bydd grantiau'n brinach i ddatblygu cynlluniau ac, yn anffodus, mae nifer fach o fusnesau wedi dod i ben. Mae hyn yn golygu bod gan yr Antur ychydig o unedau'n wag. Ond mae'n braf gallu dweud bod y mwyafrif helaeth o'n tenantiaid yn llwyddo i oresgyn y dirwasgiad a bod ymholiadau'n dod i mewn am yr unedau gwag. Rhaid i ni gofio, a sylweddoli, pa mor bwysig yw'r busnesau lleol hyn yn rhoi gwaith i bobl leol ac mae'n bwysig eu bod yn cael cefnogaeth gan drigolion y Dyffryn.

Er gwaetha'r argyfwng economaidd bydd yr Antur yn gweithredu'n gadarnhaol ac mae cynlluniau cyffrous ar y gweill. Gwnaed camau bras iawn gyda'r Cynllun Ynni Adnewyddol, 'Hydro'. Cafwyd Astudiaeth Ddichonoldeb ffafriol iawn ac o'r herwydd byddwn yn symud ymlaen i ddatblygu'r cynllun a fydd, wedi ei sefydlu, yn hwb sylweddol i'r economi leol.

Mae cynlluniau eraill ar droed i ddatblygu'r Barics yn Nantlle fel Canolfan fydd yn hybu twristiaeth ac edrychwn ymlaen at weld ein llafur yn dwyn ffrwyth yno hefyd.


Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth i Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a theimlaf y gallwn gamu ymlaen yn hyderus i'r dyfodol i ddod a gobaith a llwyddiant er budd a lles y Dyffryn.

Ifan Glyn Jones
Cadeirydd

# BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF 2009 - 2010




Ifan Glyn Jones, Cadeirydd Emrys Jones Is-gadeirydd



Cyng O P Huws



Dafydd Owen



Talfryn Griffiths



John Pritchard



Gwynne Williams



Cyng Dyfed Edwards



Elwyn Jones-Griffith



Ben Gregory



Richard Wyn Huws



Myrddin Williams

## BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF

| | |
|---|---|
| Ifan Glyn Jones (Cadeirydd) | Prifathro wedi ymddeol |
| Emrys Jones (Is-gadeirydd) | Prif Swyddog Tan Cynorthwyol wedi ymddeol |
| O P Huws | Cynghorydd Gwynedd |
| Dafydd Owen | Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor |
| John Pritchard | Cyfrifydd |
| Talfryn Griffiths | Cyfreithiwr |
| Elwyn Jones Griffith | Prifathro wedi ymddeol |
| Dyfed Wyn Edwards | Cynghorydd Gwynedd |
| Gwynne Williams | Peiriannydd gwresogi |
| Ben Gregory | Swyddog Cymuned Tai Eryri |
| Richard Wyn Huws | Hunan gyflogedig |
| Alun Wyn Jones | Swyddog Llywodraeth Leol |
| Myrddin Williams | Swyddog Cyngor Gwynedd |

### YSGRIFENNYDD ANTUR NANTLLE CYF

Beryl Fretwell

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ynghyd a chyfarfodydd o'r Grŵp Cyllid a'r Panel Personél. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, y Grŵp Twristiaeth a'r Grŵp Hydro yn gyson hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 22ain Hydref 2009

Yn unol â'r drefn ymddeolodd pedwar o gyfarwyddwyr o'r Bwrdd – O P Huws, Ifan Glyn Jones, Gwynne Williams, Ben Gregory.

Ail etholwyd y pedwar.

### STAFF ANTUR NANTLLE

| | |
|---|---|
| Dafydd Glyn Owen | Swyddog Menter (Swydd wedi dod i ben 31/12/2009) |
| Beryl Fretwell | Swyddog Antur Nantlle |
| Bet Hughes | Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg |
| Nerys Pritchard | Gofalwraig y Ganolfan Fenter |
| Nia Wyn Noone | Gofalwraig Tŷ Iorwerth |

(Cyflogwyd staff Partneriaeth Talysarn a Nantlle hyd at 31/12/2009)

| | |
|---|---|
| Wena Roberts | Swyddog Gweinyddol Cymunedau'n Gyntaf |
| Nick Thomas | Cymhorthydd Ieuenctid Cymunedau'n Gyntaf |
| Glenys Ll Williams | Swyddog Datblygu Cymunedau'n Gyntaf |

**BANCWYR**
HSBC Cangen Caernarfon

## ARDAL ANTUR NANTLLE

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: –

Carmel, Clynnogfawr, Dinas Dinlle, Y Fron , Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

## CYFLAWNIADAU 2009 / 2010


| | |
|---|---|
| Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod | 41 |
| Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir | 2500 |
| Nifer a dderbyniodd hyfforddiant | 34 |
| Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth | 14 |

## CYFARFOD, TRAFOD A CHYDWEITHIO

gyda

Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle, Cyfeillion Cae'r Gors, Y Ganolfan Gwaith, Coleg Harlech / WEA, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Amgylchedd Cymru, Bwrdd yr Iaith, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Menter a Busnes, Cymorth i Ferched Cymru, Cymdeithas Tai Eryri, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Deudraeth Cyf, Cylch, Grŵp Awyr Agored Antur Nantlle, Neuadd Goffa Penygroes, Caban Cyf a nifer eraill o grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned.

# SWYDDOG MENTER ANTUR NANTLLE
**Dafydd Glyn Owen**



Ar ddiwedd Rhagfyr 2009 daeth yn amser i ffarwelio a'r Swyddog Menter. Bu Dafydd ar staff yr Antur am dros 8 mlynedd a bu'n arwain ar nifer o gynlluniau allweddol yn ystod y cyfnod hwn. Diolch iddo am ymroi i'w rôl yn ystod ei gyfnod fel Swyddog Menter a dymunwn pob dymuniad da iddo yn y dyfodol.

Ond bob tro mae un drws yn cau, daw a chyfle newydd yn ei sgil. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd swyddfa a derbynfa'r Antur wedi symud i fyny'r grisiau er mwyn rhyddhau'r cyfan o'r llawr gwaelod i Lyfrgell Penygroes. Dyma gyfle i gynnig mwy a gwell darpariaeth yn y llyfrgell i drigolion y Dyffryn a da yw gweld fod ystadegau'r llyfrgell wedi cynyddu.

Rhaid pwysleisio hefyd nad yw drws yr Antur ar gau i'r cyhoedd – mae Beryl yn gweithio bob dydd yn y swyddfa i fyny'r grisiau a chroeso cynnes i unrhyw un alw heibio i drafod rhentu man gwaith neu unrhyw weithgaredd cymunedol sy'n digwydd yn y Dyffryn.

## EIDDO A THENANTIAETH ANTUR NANTLLE
**(Cadeirydd – Emrys Jones)**

Bu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth yn trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod y rhan fwyaf o'r unedau a swyddfeydd wedi parhau yn llawn a hynny mewn cyfnod economaidd anodd ymhob cwr o'r wlad. Mae'r Antur yn frwd dros gefnogi busnesau bychain lleol sydd yn gymaint o asgwrn cefn i'n cymdeithas yma yn Nyffryn Nantlle.

Gwnaethpwyd asesiad manwl o gyflwr ein holl adeiladau er mwyn paratoi rhaglen gwaith fydd yn diogelu'r adeiladau i'r dyfodol. Mae mwy o wybodaeth am ein gwahanol safleoedd yn dilyn.

# CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE CYF

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR  01286 882688




Gyda diwedd y flwyddyn ariannol hon daeth diwedd ar drefn sydd wedi bodoli ers 11 mlynedd wrth i dderbynfa'r Antur symud o gyntedd y llyfrgell. Mae Swyddfa weinyddol yr Antur bellach ar y llawr cyntaf yn 20 Heol y Dwr. Mae'r swyddfa ar agor yn ddyddiol rhwng 9.00am – 5.00pm ac mae croeso i unrhyw un alw heibio.



Beryl Fretwell, Swyddog Antur Nantlle
yn ei swyddfa newydd

Daeth newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol ar draws y blynyddoedd a'r galw am hyfforddiant yn y maes wedi newid hefyd, serch hynny fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant eto eleni. Diolch i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers y cychwyn cyntaf i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Daeth nifer dda i fynychu'r cwrs i ddechreuwyr a'r cwrs 'Gloywi Iaith'. Cafodd criw o Antur Waunfawr fudd a phleser wrth ymuno a Richard Eastwood (Coleg Harlech/WEA) ar nos Fawrth i ddysgu am gyfrifiaduron ac ambell un ohonynt wedi mynd ymlaen i brynu cyfrifiadur yn dilyn y cwrs. Cafwyd cyrsiau i ddechreuwyr hefyd gan Deudraeth Cyf drwy eu cynllun 'Hyfforddiant Darlledu'.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd.

Yr ydym yn dal i gynnig gwasanaeth llungopïo i'r cyhoedd yn ystod oriau agor y Llyfrgell. Mae defnyddio cyfrifiaduron a chyswllt i'r we ar gael bob dydd yn rhad iawn, ynghyd a chyrsiau ar y cyfrifiadur

Drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr rydym yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron.

Diolch yn fawr unwaith eto i Bet am gadw swyddfeydd y Ganolfan, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

**LLYFRGELL PENYGROES**
**Llyfrgellydd - Gwenllïan M Williams**
**01286 880427**

Mae'r Llyfrgell wedi ymestyn i lawr gwaelod y Ganolfan Dechnoleg i gyd erbyn hyn sy'n golygu fod mwy o le yn arbennig ar gyfer cyfrifiaduron at ddefnydd pawb yn enwedig ein pobl ifanc - gwasanaeth a gynigir yn rhad ac am ddim. Braf oedd clywed fod defnydd o'r Llyfrgell wedi cynyddu yn dilyn y newidiadau hyn a bod yr Antur wedi bod yn rhan allweddol o'r cynlluniau.

Er ein bod mewn dyddiau o brinder arian a son parhaus am doriadau yng nghyllid y gwasanaethau cyhoeddus, mae staff y Gwasanaeth Llyfrgell yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaeth i ardal Dyffryn Nantlle yn parhau yn gyfoes gyda llyfrau newydd yn cyrraedd y Llyfrgell bron yn wythnosol. Yn ychwanegol at hyn i gyd mae'r Cyngor wedi gosod lle cadw beics ar y palmant sydd yn gyfleus i bawb ac yn cael defnydd bob dydd.

Mae croeso i bawb ddod draw i weld beth yw'r arlwy, mae yma rywbeth at ddant pawb - llyfrau safonol ar bob pwnc, llyfrau i'r ifanc a chornel arbennig i'r plant lle ceir amser stori a chrefftau ar amseroedd penodol.



**Cyntedd y llyfrgell ar ei newydd wedd**

## SWYDDOG ADFYWIO BRO GWYRFAI NANTLLE
## CYNGOR GWYNEDD

Y Swyddfa Adfywio, Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Heol y Dŵr, Penygroes
01286 882968



Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros fro Dyffryn Nantlle ers 6 mlynedd erbyn hyn. Nod y cynllun Adfywio Bro yw cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Kelvin wedi parhau i roi cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle, Cae'r Gors, a chymorth i Antur Nantlle gyda chynlluniau Awyr Agored a'u cynllun Ynni Adnewyddol. Yn ogystal cafwyd llwyddiant gyda Gwedd 1 o gynlluniau gwelliannau Neuadd Goffa Penygroes a Neuadd Bentref Clynnog Fawr.

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Mentrau Cymunedol yn bwysicach nag erioed fel ffordd o wella Cymunedau. Felly, os ydych chi'n ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth neu â diddordeb sefydlu menter gymunedol newydd fyddai'n cyfrannu tuag at eich cymuned cysylltwch â Kelvin.

## YMDDIRIEDOLAETH TIR CYMUNEDOL DYFFRYN NANTLLE
## (Ymtic)



Dafydd Watts

Daeth diwedd cyfnod yn hanes yr Ymddiriedolaeth Tir wrth i Dafydd Watts ymadael a'i swydd fel Swyddog Datblygu'r Ymtic a symud ymlaen i fod yn Rheolwr Prosiect Ynni Cynaliadwy hefo Asiantaeth Ynni Hafren Gwy. Mae'r Antur yn dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd ac yn edrych ymlaen at gadw cysylltiad ag ef drwy gael arweiniad a chymorth ganddo i symud ein prosiect Ynni Adnewyddol Hydro yn ei flaen.

**CANOLFAN FENTER DYFFRYN NANTLLE**

Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB



Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny. Mae'r ystafell gyfarfod wedi dod yn wag unwaith eto ac mae ar gael yn awr i'r Antur gynnal eu cyfarfodydd ac i'w llogi i gwmnïau ac asiantaethau allanol yn achlysurol ar gyfer cyfarfodydd, cyrsiau ayb am bris rhesymol.

Croeso a phob llwyddiant i gwmni Alan W Jones Welding sydd wedi symud i'r iard a phob dymuniadau da i gwmni K & N Scaffolding wrth iddynt ymadael.



Emma yn Uned Celtic Auto Parts

Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni Torwoods, prynu rhannau ceir o Celtic Auto Parts, cael tynnu eich llun yn stiwdio Gwynant Parri, a wyddoch chi fod Paul Hatt o Uned 2 wedi crwydro'r byd hefo'i systemau 'PA' ac wedi gweithio hefo nifer o sêr mawr y byd pop megis Petula Clark, Neil Sedaka, Freddie Star i enwi dim ond rhai heb anghofio Bryn Fôn hefyd!!



Gwynant Parri yn ei stiwdio hefo llun o Fynydd Paris

**SIOP/GWEITHDY, 35 STRYD YR WYDDFA, PENYGROES**

Oriel Llun-Mewn-Ffram (Meical Roberts 01286 882056)




Ynghyd a chynnig gwasanaeth fframio o'r radd uchaf mae Meical hefyd yn gwerthu ac arddangos lluniau gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru fel Ifor Pritchard, William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Keith Andrew, Carys Bryn a Diane Williams. Mae Meical hefyd yn awyddus i gefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac mae hefyd yn gwerthu nifer o grefftau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, hwdis a mwy.

Profiad pleserus a diddorol yw ymweld ag Oriel Llun-Mewn-Ffram – siop unigryw ym mhentref Penygroes.





Meical wrth ei waith fframio yn y gweithdy

## SIOP 22

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR



Fel Siop 22 yr adnabyddir 10 Heol y Dwr yn lleol o hyd a hynny'n deillio'n ôl i'r dyddiau pan oedd yn siop ddillad gan deulu lleol. Mae'r Antur yn falch o fod wedi medru cadw'r safle fel adeilad masnachol sy'n cynnig tair swyddfa a siop/swyddfa, yng nghanol pentref Penygroes.

Matt Tuck o gwmni Matom yw tenant y llawr gwaelod.

Mae Gruff Owen yn gweithio i Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru yn swyddfa 2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn i'w gofal adeiladau crefyddol diangen sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Am fwy o wybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth cysylltwch â Gruff ar 01286 881365

Mae Cymorth Cynllunio Cymru, tenantiaid Swyddfa 3, yn darparu cyngor a chymorth proffesiynol ac annibynnol am ddim ar faterion cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch a 01286 882834 / www.cymorthcynlluniocymru.org.uk



Gruff Owen



Am bob math o waith dylunio graffig ar y cyfrifiadur, cynhyrchu gwefannau, brandio, argraffu a mwy, cysylltwch â Justin Davies o Gringo Designs yn Swyddfa 4 ar 01286 882561.

**Y BARICS**
**Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD**



Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrorsedd oedd y Barics ers talwm ond erbyn heddiw yn unedau bychain at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Mae Canolfan Llys Llywelyn yn ganolfan brysur dros ben yn Nantlle ac yn cynnig man cyfarfod i drigolion lleol, cymdeithasau a grwpiau. Mae yma ystafell gyfrifiadurol a bri mawr ar y cyrsiau ffotograffiaeth digiol ac mae criw yn ymgynull i gasglu archif o hen luniau a gwybodaeth am yr ardal a'i phobl.

Peter a Wendy Midwinter gyda 'Railways Unlimited'sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.




Yn Uned 4 mae Dyfrig Peris a Jennie Corr yn rhedeg cwmni Peris a Corr. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argraffu â sgrin hefo inciau dwr - argraffu ar grysau T, bagiau cynfas ayyb. Maent hefyd yn cynllunio tecstiliau a chardiau cyfarch eu hunain. Mae'r holl waith papur a chardiau cyfarch yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu a defnyddir deunyddiau pecynnu pydradwy neu wedi'u hailgylchu lle bynnag y bo modd. Cysylltwch a Dyfrig a Jennie ar 01286 881787 www.perisandcorr.com






Mae mwy o waith celf i'w weld yn Uned 5 wrth i Christine Matthews gynhyrchu peintiadau ayyb ac arddangos gwaith nifer o artistiaid eraill hefyd.

Daeth gaeaf gwlyb a'i broblemau i'r Barics pan lifodd dwr i mewn i un neu ddwy o'r unedau. Mae'r Antur wedi cydweithio hefo perchnogion Penyrorsedd a Chyngor Gwynedd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.



Mae'r safle yn ganolog i'n cynllun 'Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored i Ddyffryn Nantlle'. Mae'r cais cynllunio wedi ei sicrhau ac er fod ffordd bell i fynd, byddwn yn dal i ymchwilio i'r posibiliadau yn y misoedd i ddod.




**TŶ IORWERTH**
**39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES**




Mae gwasanaeth holl bwysig yr HSBC ar gael yn y pentref yn ddyddiol a gobaith pawb ydyw y bydd parhad i'r gwasanaeth am flynyddoedd i ddod.

**Cymorth i Ferched Cymru -** O'u canolfan ym Mhenygroes mae'r llinell gymorth trais yn y cartref yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion drwy Gymru gyfan, sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref. (0808 8010800).



Rhian sydd yng ngofal y llinell gymorth



Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn gweithio fel cyfieithydd (01286 880444) a Ben Gregory yn Swyddfa 7 gydag Ymgyrch Nicaragua.



Mae Swyddfa 5 yn wag – swyddfa olau braf i unrhyw un weithio ohoni hefo golygfa hyfryd o ben Nebo draw at yr Eifl.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cychwyn busnes ond ofn mentro – dewch i'n gweld – gallwn gynnig swyddfa am ddim am gyfnod i chi brofi'r farchnad.



## GRŴPIAU DIWYDIANT AC ECONOMI ANTUR NANTLLE CYF

Dyma'r Grŵpiau sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n gyfnod anodd, sydd wedi gweld lleihad mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno. Yr ydym yn barod i drafod hefo unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno a ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal. Mae manylion am ein prif gynlluniau economaidd yn dilyn.

- **Grŵp Ynni Adnewyddol Hydro Antur Nantlle**
  Cadeirydd Dafydd Owen

Sefydlwyd Grŵp Ynni Adnewyddol yr Antur i ystyried oblygiadau newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yn Nyffryn Nantlle. Yn dilyn ymchwiliad desg positif ar ddwy afon yn lleol penderfynwyd canolbwyntio ac ymholi ymhellach i'w potensial ar gyfer datblygu cynllun ynni adnewyddol hydro.

Ar ôl trafod gyda'r tirfeddianwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd cafwyd cymorth Cronfa Cynaliadwyedd Cyngor Gwynedd i baratoi astudiaeth cychwynnol i weld a oedd yr afonydd yn addas ar gyfer datblygu cynlluniau hydro.

Gan fod yr astudiaethau rhagarweiniol yn addawol fe symudodd y Grŵp ymlaen i ymgeisio'n llwyddiannus am grant Cronfa Datblygu Gwirfoddol Cyngor Gwynedd tuag at ariannu Astudiaethau llawn a chomisiynwyd cwmni Dulas i wneud y gwaith. Ar yr un pryd ariannodd yr Antur astudiaeth angenrheidiol arall sef Astudiaeth Bryophtes er mwyn asesu sefyllfa tyfiant prin, pysgod, llygod dwr ayb yn yr afonydd.

Wedi derbyn yr Astudiaethau manwl y cam nesaf fydd dewis pa safle i'w datblygu, cydweithio hefo Dafydd Watts, Rheolwr Prosiect Ynni Cynaliadwy hefo Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, a Kelvin Roberts y Swyddog Adfywio i ymgeisio am grantiau gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Ynni'r Fro) am arian i symud y fenter yn ei blaen.

Mae llawer o waith caled wedi ei wneud yn barod i'r cynllun hwn a llawer iawn o waith o'n blaenau eto ond mae'r Grŵp Ynni wedi ymrwymo i'r prosiect ac yn llawn hyder y bydd y cynllun cyffrous ac amserol hwn yn cael ei wireddu.

### Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle
Cadeirydd O P Huws

**Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dyffryn Nantlle**

Yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle sefydlwyd Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle i drafod yr adnoddau sydd ar gael i dwristiaid yn y Dyffryn a daeth yn amlwg fod diffyg llefydd i bobl aros yn yr ardal.

Mae adroddiad *Planning for Real®,* a gwblhawyd drwy raglen Rhoi Cymunedau'n gyntaf gan Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn cyfeirio at Y Barics Nantlle fel man addas i'w ddatblygu ar gyfer ymwelwyr a chan fod y Barics ym meddiant yr Antur penderfynodd y Grŵp Twristiaeth gomisiynu Astudiaeth Dichonoldeb - 'Llety Ymwelwyr a Chanolfan Awyr Agored i Ddyffryn Nantlle' ac roedd digon o dystiolaeth ynddi i barhau i ymgynghori a gwneud gwaith ymchwil pellach.

Wedi llawer o drafod, fe gytunwyd ar y cynlluniau hefo'r pensaer a derbyniwyd hawl cynllunio gan Cadw i adeiladu ar safle'r Barics. Byddai gwireddu'r cynllun yn cynnig man aros safonol i ymwelwyr yn enwedig y rhai gyda diddordeb yn y maes awyr agored ac yn dod a buddion economaidd yn ei sgil.

**Grŵp Awyr Agored Antur Nantlle**

Sefydlwyd Grŵp Awyr Agored Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Daeth cynrychiolwyr o Antur Nantlle, Cymunedau'n Gyntaf Talysarn a Nantlle, Dringo'r Waliau, Swyddog Adfywio Cyngor Gwynedd, cynrychiolydd o'r Bartneriaeth Awyr Agored ac unigolion lleol at ei gilydd i drafod y posibiliadau o gychwyn diwydiant twristiaeth awyr agored yn y Dyffryn. Prif fwriad y grŵp yw:-

- Ymateb i ddiffyg darpariaeth i dwristiaid yn y Dyffryn ac adnabod y manteision fedr ddod o sefydlu grŵp lleol i ddatblygu'r diwydiant.
- Canolbwyntio ar sefydlu gweithgareddau awyr agored yn y Dyffryn er mwyn i bobl leol a thwristiaid fedru mwynhau beth sydd gan yr ardal i'w gynnig.
- Rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau yn y maes fydd yn arwain at gyflogaeth
- Datblygu economi Dyffryn Nantlle
- Cyflogi Swyddog Datblygu Twristiaeth

Cam nesaf y Grŵp fydd denu cyllid i gyflogi Swyddog Datblygu Twristiaeth i weithio gyda hwy i roi Dyffryn Nantlle ar y map fel atyniad twristiaeth drwy ganolbwyntio ar faes 'Gweithgareddau Awyr Agored'. Dyma fan cychwyn all arwain at ddatblygu'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal fydd yn gymorth i hybu bywyd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol y Dyffryn.

## RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF
## PARTNERIAETH TALYSARN A NANTLLE

Cydlynydd: Gwen Thirsk (01286 881103)

Daeth cyfnod yr Antur fel Corff Atebol i Bartneriaeth Talysarn a Nantlle dan Raglen Cymunedau'n Gyntaf i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2009 pan drosglwyddwyd yr awenau i Gyngor Gwynedd. Bydd cynrychiolaeth o'r Antur ar y Bartneriaeth o hyd a byddwn yn falch o gydweithio gyda hwy ar unrhyw brosiectau economaidd posib er lles Dyffryn Nantlle.

Newyddion da oedd clywed fod y Cynulliad wedi cymeradwyo cyllid i'r Bartneriaeth hyd at Fawrth 2012 ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt dan arweiniad eu Cydlynydd newydd Gwen Thirsk.

# DIWEDDGLO

Yn ystod y flwyddyn etholwyd Ifan Glyn Jones yn Gadeirydd yr Antur ac rydym yn edrych ymlaen at ei arweiniad gyda chefnogaeth Emrys Jones fel Is-gadeirydd. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o 5 mlynedd dan gadeiryddiaeth y Cyng. O P Huws a fu hefyd yn Is-gadeirydd am bron i 15 mlynedd ac yntau yn un o'r rhai hynny fu'n allweddol i sefydlu cwmni Antur Nantlle Cyf ugain mlynedd yn ol.

Mae ugain mlynedd hefyd ers cyhoeddi astudiaeth 'Tlodi a Chyfle' ar ardaloedd chwareli llechi yn Arfon gan J T McAllister ac mae canlyniadau'r astudiaeth bryd hynny yn dal yn wir o hyd:-

- incwm pobl leol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- ychydig o swyddi yma ar gyflogau uchel
- canran uchel o'r boblogaeth yn dibynnu ar fudd-daliadau.

Dyma'r astudiaeth arweiniodd yn bennaf at sefydlu Antur Nantlle yn 1990 pan ddaeth criw o bobl leol ymroddgar at ei gilydd i geisio ymateb i broblemau'r ardal gan roi o'u hamser yn wirfoddol er lles eu cymuned.

Mae Antur Nantlle wedi ymroi dros yr 20 mlynedd yma i ymgyrraedd at adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ardal Dyffryn Nantlle drwy'n bennaf ddenu grantiau i'r ardal fyddai ddim wedi cyrraedd heb fod yr Antur yn bodoli. Heddiw rydym yn medru cynnig 16 o unedau busnes, 15 o swyddfeydd, 2 siop, iard, ystafell hyfforddiant gyfrifiadurol ac un fflat i'w gosod yn yr ardal sydd yn cynnig mannau gwaith i oddeutu 60 o bobl yn Nyffryn Nantlle. Credwn o hyd fod hon yn ardal sydd yn haeddu buddsoddiad sylweddol i wneud gwahaniaeth ond tan hynny, daliwn i bydru mlaen gyda'r gwaith.

Mae'r Antur wedi ymateb i'r pwysau sydd arnom i gyd yn wyneb y newid yn yr hinsawdd a'r galw am ynni adnewyddol, trwy sefydlu Grŵp Ynni Adnewyddol. Mae'r Grŵp yn symud ymlaen i ddatblygu prosiect Ynni Hydro yn yr ardal

Gobeithio hefyd y byddwn yn llwyddo drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, i ymestyn y ddarpariaeth sydd yn y Dyffryn i ymwelwyr ym maes gweithgareddau awyr agored, fydd yn chwyddo'r diwydiant twristiaeth er budd economaidd yr ardal.

Nid oes rhaid atgoffa neb wrth gwrs ein bod ynghanol cyfnod o ddirwasgiad a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus Yn wyneb hyn mae'r Antur yn barod i roi hwb i fusnesau lleol - os oes diddordeb gan unrhyw un mewn cychwyn busnes ond ofn mentro, dewch i siarad hefo'r Antur – does dim byd i'w golli - gallwn gynnig swyddfa am ddim i chi am gyfnod i gychwyn eich busnes.

Y flwyddyn nesaf gobeithio y bydd gennym achos i dathlu gyda gweld gwireddu ein cynllun hydro a symud ymlaen i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth yn Nyffryn Nantlle. Rydym yn barod i gydweithio mewn partneriaeth hefo asiantaethau cyhoeddus a lleol ar brosiectau fydd o fudd i'r Dyffryn. Os am ymuno yn y frwydr, cysylltwch â ni, byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd am weithio hefo ni 'er lles yr ardal'.

**ANTUR NANTLLE CYF**

Rhif y Cwmni 2618216

# CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31 2010

A HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

Gweithio er lles yr ardal

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

communities first cymunedau yn gyntaf

Partneriaeth Talysarn a Nantlle

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government